Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

Pecyn Gwybodaeth

Swydd Pennaeth

Gradd Cyflog: L28 - L34

Dyddiad cau: 8 Mawrth 2019

Llythyr gan Gadeirydd y Corff Llywodraethol

Annwyl Ymgeisydd

Diolch am eich diddordeb yn yr hysbyseb am y swydd uchod yn Ysgol Gyfun Gŵyr.

Mae Ysgol Gyfun Gŵyr yn ysgol 11-18 sy'n cyflawni safonau a chanlyniadau eithriadol ym mhob un o'r meysydd allweddol yn flynyddol. Ers ei sefydlu ym 1984, mae'r ysgol wedi dilyn trywydd o ddatblygiad arloesol gan sicrhau'r safonau uchaf ar hyd y daith. Mae gan Ysgol Gyfun Gŵyr enw da a record o gyflawniad rhagorol.

Mae canlyniadau arholiadau allanol yr ysgol ar y brig yn rheolaidd, nid yn unig yn Ninas a Sir Abertawe ond hefyd yn genedlaethol. Yn 2018, enillodd 84% o ddisgyblion Bl.11 o leiaf 5 TGAU A*-C ac mae'r ysgol wedi ei chategoreiddio'n werdd gan Lywodraeth Cymru eleni eto. Mae'r broses categoreiddio'n dangos patrwm amlwg o lwyddiant cyson sy'n amlygu bod Ysgol Gyfun Gŵyr yn gadarn, dros gyfnod hir o amser, ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg sy'n perfformio orau yng Nghymru. Mae'n destun balchder mawr i ni fel Llywodraethwyr a chymuned yr ysgol i weld Ysgol Gyfun Gŵyr yn llwyddo i'r fath raddau. Y mae perfformiad ysgubol yr ysgol yn un o'r ffactorau pwysicaf sydd wedi arwain at dwf yn nifer y disgyblion sy'n elwa o addysg Gymraeg yn Abertawe.

Dychwela tua 70% o ddisgyblion Bl.11 i'r Chweched yn flynyddol fel rhan o Bartneriaeth Chweched Dosbarth Gŵyr-Bryn Tawe.

Mae gan yr ysgol staff ymrwymedig a disgyblion sy'n awyddus i ddysgu. Cynigia'r ysgol gwricwlwm eang a chytbwys gydag ystod eang o weithgareddau allgyrsiol at ddant pawb. Mae Ysgol Gyfun Gŵyr yn ysgol hapus sy'n parchu hawliau. Mae ganddi naws deuluol, ofalgar, a chynhwysol.

Ers derbyn adroddiad ardderchog arolygiad Estyn yn 2015, mae'r ysgol wedi parhau ar daith o welliant pellach.

Ers Ionawr 2017 bu'r ysgol yn nwylo Pennaeth a thîm arweinyddiaeth interim yn sgil secondiad Mrs Katherine Davies, y pennaeth parhaol, i Lywodraeth Cymru. Mae'r cyfnod interim yn dirwyn i ben yn Awst 2019 ac mae Mrs Davies wedi dewis ymddeol yn gynnar o waith yr ysgol.

Rydym felly yn awyddus i benodi Pennaeth parhaol i arwain yr ysgol i'r dyfodol o Fedi 2019. Ein dymuniad yw penodi arweinydd profiadol a deallus sydd â'r weledigaeth, y gallu a'r ymroddiad, ac sydd:

- yn meddu ar record o gyflawniad ardderchog fel arweinydd medrus a llwyddiannus;
- â gwybodaeth ddofn o ddatblygiadau addysgiadol ledled Cymru;
- â dealltwriaeth gref o addysg gyfrwng Cymraeg, a'r ymrwymiad angenrheidiol i gynnal, hyrwyddo a datblygu ethos Cymraeg a Chymreig yr ysgol;
- â gweledigaeth glir am ddatblygiad yr ysgol yn y dyfodol, a'r gallu drwy arwain ac ysbrydoli'r ysgol gyfan i wireddu a gweithredu'r weledigaeth honno;

- yn medru meddwl yn greadigol, gyda'r gallu i ddatrys problemau a datblygu syniadau arloesol;
- â'r ddawn i gyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r llywodraethwyr, staff, disgyblion, rhieni, a'r gymuned ehangach, er mwyn hyrwyddo a datblygu buddiannau Ysgol Gyfun Gŵyr;
- yn medru arwain a rheoli staff yn effeithiol, yn deg a pharchus, eu hysbrydoli a'u datblygu'n broffesiynol;
- yn medru rheoli cyllid yn effeithiol ag effeithlon;
- yn barod i gydweithio mewn partneriaeth â'r AALl, ysgolion cyfagos ac asiantaethau eraill i ddatblygu a sefydlu cyrsiau arloesol cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion/myfyrwyr 14-19;
- yn barod i gydweithio mewn partneriaeth â'r AALl/Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r safle gogyfer â thwf niferoedd disgyblion y dyfodol;
- â'r ymrwymiad i sicrhau dilyniant dysgu o'r cynradd drwodd i'r uwchradd;
- â'r ymrwymiad i sicrhau llwyddiant parhaus i'r Chweched Dosbarth a Phartneriaeth Gŵyr-Bryn Tawe er mwyn sicrhau mynediad myfyrwyr i'w gyrfaoedd dewisedig.

Nodwch y ddogfennaeth amgaeëdig sef Prosbectws 2018, Prosbectws y Chweched (Partneriaeth Gŵyr-Bryn Tawe) 2018, a'r Adroddiad Blynyddol 2018. Hyderaf y bydd y pecyn gwybodaeth hwn yn rhoi syniad da i chi o sefyllfa gyfredol yr ysgol, ynghyd â chyd-destun swydd y Pennaeth. Dylid nodi y gellid cael mwy o wybodaeth am fywyd bob dydd yr ysgol drwy ymweld â gwefan yr ysgol.

Os ydych angen unrhyw wybodaeth ychwanegol, neu os hoffech ymweld â'r ysgol cyn cyflwyno'ch cais, mae croeso i chi wneud hynny drwy gysylltu â Chlerc y Corff Llywodraethol, Ms Mari Jones, naill drwy ffonio'r ysgol (01792 872403) neu drwy e-bostio (mari.jones@swansea-edunet.gov.uk).

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw dydd Gwener, 8 Mawrth 2019. Cynhelir y cyfweliad dros gyfnod o ddeuddydd ar 2 a 3 Ebrill 2019. Hysbysir yr ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer ar 22 Mawrth 2019.

Yn gywir

A.M. Williams

Aldyth Williams
Cadeirydd y Llywodraethwyr

Disgrifiad Swydd

Pennaeth - L28-L34 (£77,613 - £89,900)

Mae'r Corff Llywodraethol yn awyddus i benodi Pennaeth parhaol brwd, sydd â'r gallu i arwain, ysbrydoli, ac ysgogi'r gymuned ysgol gyfan.

Mae'r Pennaeth yn gyfrifol am bob agwedd o waith Ysgol Gyfun Gŵyr, gan ddarparu gweledigaeth glir ar gyfer addysg yr ysgol, ynghŷd â hybu, hyrwyddo a datblygu ei hethos Cymraeg a Chymreig. Mae'n gyfrifol am greu amgylchedd dysgu cyffrous, ysgogol a chynhyrchiol i'r disgyblion a'r staff, ac am eu morâl a'u lles cyffredinol. Y Pennaeth yw'r swyddog proffesiynol arweiniol yn yr ysgol ac, ynghyd â'r Corff Llywodraethol a'r gymuned ysgol gyfan, mae'n gyfrifol am:

- gyflawni cenhadaeth, creu gweledigaeth a sefydlu cyfeiriad strategol yr ysgol;
- rheoli newid a llunio dyfodol yr ysgol;
- sicrhau llwyddiant a gwelliant i'r ysgol trwy hunan werthuso trylwyr;
- sicrhau dysgu ac addysgu o'r safon uchaf, a safonau cyrhaeddiad uchel;
- darparu cyfle cyfartal i bawb;
- datblygu, gweithredu, monitro a gwella polisïau ac arferion yn barhaus;
- gweithredu o fewn fframwaith o reoliadau a dehongli a chymhwyso deddfwriaeth berthnasol;
- rheoli a threfnu'r ysgol o ddydd i ddydd i sicrhau fod adnoddau, gan gynnwys amgylchedd yr ysgol ac adnoddau dynol, yn cael eu defnyddio mewn ffordd effeithlon, effeithiol a diogel i gyflawniadau ac amcanion yr ysgol;
- sicrhau ymrwymiad y gymuned ehangach i'r ysgol trwy ddatblygu a chynnal rhwydweithiau effeithiol;
- sicrhau datblygiad proffesiynol personol a datblygiad proffesiynol holl staff yr ysgol;

Mae'r penodiad yn unol ag amodau presennol y ddogfen 'Amodau a Thâl Athrawon Ysgol', ynghyd ag unrhyw ddeddfwriaeth gyfredol arall yn ymwneud ag addysg a chyflogaeth.

Adolygir y disgrifiad swydd yn rheolaidd a gall gael ei newid ar unrhyw adeg yn dilyn ymgynghoriad gyda deilydd y swydd.

Nid yw'r disgrifiad swydd hwn yn dangos yr holl dasgau ond mae'n gosod y prif ddisgwyliadau yn unol â chyfrifoldebau deilydd y swydd.

GWNEUD CAIS AM Y SWYDD

Mae modd gwneud cais am y swydd hon naill ai drwy:

- gysylltu yn uniongyrchol â'r ysgol am becyn swydd (ffôn 01792 870002 neu ysgol.gyfun.gwyr@swansea-edunet.gov.uk)
- lawrlwytho copi pdf o'r ffurflen gais oddi ar wefan yr ysgol (https://www.yggwyr.org.uk/) neu e-teach (https://www.eteach.com/)
- gwblhau'r ffurflen gais electronig oddi ar wefan Cyngor Sir Abertawe (https://swansea.gov.uk/swanseajobs)

CYFWELD

Cynhelir y cyfweliadau dros gyfnod o ddeuddydd ar 2/3 Ebrill 2019. Fe hysbysir yr ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer ar 22 Mawrth 2019.

Dyddiad Cau: 8 Mawrth 2018.

Manyleb Person

	Hanfodol	Dymunol
Cymwysterau	· Cymhwyster athro cymwysedig. · Gradd dda. · Cymhwyster CPCP, neu brofiad perthnasol fel Pennaeth.	
Hyfforddiant	· Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus.	· Profiad o arwain sesiynau hyfforddiant. · Mentora neu ddatblygu staff.
Profiad	· Addysgu llwyddiannus ar draws 11-18. · Arwain a rheoli blaengareddau ysgol gyfan. · Arwain a rheoli tîm. · Arwain a rheoli newid. · Ysbrydoli a datblygu staff. · Cynllunio strategol. · Gwella dysgu ac addysgu. · Dadansoddi data i godi safonau. · Rheolaeth Cyllid Ysgol. · Gweithio gyda rhieni fel partneriaid mewn dysgu. · Delio gyda materion personol sensitif a dwys ac o ddod o hyd i strategaethau a datrysiadau i broblemau cysylltiedig.	· Ymwneud ac annog dysgu. · Rheoli neu weithredu prosesau hunan werthuso. · Rheoli Perfformiad. · Gweithio mewn partneriaeth â'r: – Darparwyr allanol – Gymuned – Llywodraethwyr – Ymgynghorwyr/swyddogion yr AALl · Hyrwyddo a marchnata'r ysgol.
Gwybodaeth	· Materion cysylltiedig ag Addysg yng Nghymru, yn arbennig yn y maes polisi a gweithredu. · Datblygiadau cwricwlwm diweddaraf. · Deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol. · Y berthynas rhwng addysgu a dysgu effeithiol ac arfer dda o ran asesu. · Y Fframwaith Cymhwysedd digidol. · Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. · Y Cwricwlwm Newydd. · Cyflogaeth a rheolaeth staff ynghyd â materion personél. · Camau & phrosesau Amddiffyn Plant. · Prosesau disgyblu ar draws ysgol.	· Gweithredu prosesau asesu yn llwyddiannus. · Rheolaeth Iechyd & Diogelwch. · Cysylltiadau gweithredol rhwng hyrwyddo'r strategaeth cynhwysiant trwy gyfrwng y cwricwlwm. · Polisi a gweithrediad o ran cynhwysiant. · Systemau rheoli a monitro presenoldeb. · Prosesau yn ymwneud a Llais y Dysgwr. · Prosesau pontio a chyfathrebu rhwng CA2 a CA3 er mwyn gwella cynnydd plant. · Cymhwyster Bagloriaeth Cymru. · Rôl Cyngor Ysgol.
Sgiliau	· Sgiliau personol a rhyngbersonol ardderchog. · Y gallu i gyfathrebu'n dda - safonau uchel yn ysgrifenedig ac ar lafar yn y Gymraeg a'r Saesneg. · Y gallu i ysbrydoli ac ysgogi'r gymuned ysgol gyfan. · Gweinyddu'n dda. · Rheoli a gweithio o fewn terfynau amser. · Y gallu i orffen tasgau ac i gael y maen i'r wal yn llwyddiannus. · Sgiliau TGCh da. · Y gallu i ddangos blaengaredd ac i weithio'n annibynnol ac yn rhan o dîm.	
Cymwyseddau	· Hyrwyddo Addysg Gymraeg a Chymreig yn rymus. · Gweledigaeth. · Bod yn flaengar a rhagweithiol. · Y gallu i ennyn ymddiriedaeth a hyder. · Disgwyliadau uchel o'i hunan ac eraill. · Y gallu i adeiladu a chynnal perthnasau gweithio adeiladol. · Ymroddiad i welliant parhaol a chodi safonau. · Y gallu i fod yn bositif a brwd o dan bwysau. · Y gallu i drefnu gwaith a chynllunio'n effeithiol.	
Eraill	· Cofrestriad Cyngor y Gweithlu Addysg. · Cydymffurfio â safonau proffesiynol ar gyfer addysgu & arweinyddiaeth. · Gwiriad DBS manwl.	

Cefndir cryno o'r ysgol

Mae Ysgol Gyfun Gŵyr yn ysgol Gymraeg benodedig sy'n rhoi pwyslais ar gynnal ethos teuluol, gofalus a chynhwysol.

Ysgol Grŵp 6 yw Ysgol Gyfun Gŵyr ar hyn o bryd, ond yn sgil y codiad mewn niferoedd disgyblion, bydd y grŵp yn codi i Ysgol Grŵp 7 o Fedi 2021. Seilir y cyflog L28-L34 yn gyfforddus o fewn yr amrediad gyflog gywir ar hyn o bryd. Bwriada'r Llywodraethwyr adolygu'r amrediad unwaith eto ar ddiwedd tymor yr Haf 2021.

Mae 972 disgybl ar gofrestr yr ysgol a dros 50 o ddisgyblion Bryn Tawe yn cael eu haddysg 16+ ar y safle o fewn Partneriaeth Chweched Dosbarth Gŵyr-Bryn Tawe.

Mae Ysgol Gyfun Gŵyr yn derbyn disgyblion o 5 ysgol gynradd sef YGG Y Login Fach, YGG Bryn-y-Môr, YGG Llwynderw, YGG Bryniago a YGG Pontybrenin.

Mae canran Prydau Ysgol am Ddim yn isel.

Addysgir ac asesir y cwricwlwm Saesneg yn Saesneg.

Dewisa'r disgyblion os ydynt am astudio a sefyll arholiadau Gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

Addysgir ac asesir pob pwnc arall trwy gyfrwng y Gymraeg.

Dychwela tua 70% o ddisgyblion Bl.11 i'r Chweched yn flynyddol fel rhan o Bartneriaeth Chweched Dosbarth Gŵyr-Bryn Tawe.

Addysgir nifer o ddisgyblion Bryn Tawe hefyd ar dir yr ysgol gyda chludiant bws wennol yn rhedeg rhwng y ddwy ysgol drwy gydol y dydd. Y mae pennaeth a dirprwy bennaeth y Chweched yn gyfrifol am gynnydd a lles disgyblion Bl.12 a Bl.13.

Mae canlyniadau arholiadau allanol yr ysgol ar y brig yn rheolaidd, nid yn unig yn Ninas a Sir Abertawe ond hefyd yn genedlaethol. Eleni, enillodd 84% o ddisgyblion o leiaf 5 TGAU A*-C ac mae'r ysgol wedi ei chategoreiddio'n werdd gan Lywodraeth Cymru eleni eto. Mae'r broses categoreiddio'n dangos patrwm amlwg o lwyddiant cyson sy'n amlygu bod Ysgol Gyfun Gŵyr yn gadarn, dros gyfnod hir o amser, ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg sy'n perfformio orau yng Nghymru.

Mae'r ysgol wedi cynnal safonau academaidd uchel dros gyfnod hir iawn o amser.

Am fanylion pellach gweler Prosbectws yr ysgol, Prosbectws Partneriaeth y Chweched a'r Adroddiad Blynyddol 2018.

Strwythur Uwch Dîm Rheoli

Mae aelodaeth yr Uwch Dîm Rheoli interim presennol yn cynnwys Pennaeth, Dirprwy Bennaeth, dau Bennaeth Cynorthwyol ac un Athro Hŷn.

Mae'r Tîm Rheoli ehangach yn cynnwys aelodau'r tîm craidd ynghyd â chwe Arweinydd Dysgu a Chynnydd. Mae gan Bennaeth y Chweched ddirprwy er mwyn estyn cymorth gyda disgyblion Bl.12 a Bl.13 a gwaith Partneriaeth Gŵyr-Bryn Tawe.

Pennaeth

Safonau
Arweinyddiaeth a Rheolaeth
Lles ac Agweddau at Ddysgu
Addysgu a Phrofiadau Dysgu
Gofal
Cymorth ac Arweiniad

Dirprwy Bennaeth

Cwricwlwm a Staffio
Dogfennaeth
Y Cwricwlwm Newydd
Disgyblaeth
Diogelu

Pennaeth Cynorthwyol 1

Dysgu ac Addysgu
Gwella Ansawdd
Dat. Proffesiynol Parhaus
Rheoli Perfformiad

Pennaeth Cynorthwyol 2

Asesu ac Adrodd 'Nôl
Arholiadau

Athro Hŷn

Lles
ADY
Trosolwg

Mae gan y chwe Arweinydd Dysgu a Chynnydd gyfrifoldeb dros gynnydd a lles disgyblion blynyddoedd penodol. Rhennir y swyddi fel a ganlyn:

Blwyddyn 7

Blwyddyn 8

Blwyddyn 9

Blwyddyn 10

Blwyddyn 11

Blwyddyn 12/13 (gyda dirprwy bennaeth y Chweched yn estyn cymorth)

Mae pob aelod o'r Uwch Dîm Rheoli, ynghyd â phob aelod arall o'r staff, yn rhannu nifer o gyfrifoldebau a dyletswyddau generig megis:

- cymryd rhan mewn prosesau monitro a chynnal safonau
- sicrhau ymddygiad da gan ddisgyblion
- cynnal ethos Cymraeg a Chymreig yr ysgol
- arwain gwasanaethau a chyfarfodydd cyhoeddus sy'n ymwneud â'r ysgol
- hyrwyddo'r ysgol yn gyhoeddus
- sicrhau diogelwch pawb sy'n rhan o'r ysgol